***Statws** This is the original version (as it was originally enacted).*

ATODLEN 4

GWEITHREDU CYNIGION I NEWID CATEGORI YSGOL

## RHAN 3

TROSGLWYDDO TIR

*Newid o ysgol sefydledig i ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol wirfoddol a reolir*

18 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys—

(a) pan fo'n ofynnol o dan adran 55(2) i weithredu cynigion bod ysgol sefydledig sy'n aelod o'r grwp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto yn dod yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu'n ysgol wirfoddol a reolir, a

(b) o'r dyddiad gweithredu ymlaen pan na fydd yr ysgol yn aelod o'r grwp.

(2) Mae unrhyw dir, a oedd, yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn cael ei ddal gan y corff sefydledig at ddibenion yr ysgolion yn y grwp ac yn cael ei ddefnyddio at ddibenion yr ysgol sefydledig, ar y dyddiad hwnnw, i'w drosglwyddo i ymddiriedolwyr yr ysgol ac i'w freinio ynddynt, i'w ddal ganddynt ar ymddiried at ddibenion yr ysgol.